



# **Adroddiad Drafft ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno**

## **CYSUR 1/2017**

**Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd: 17 Hydref 2019**

**Adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant**

**CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**Adolygiad Ymarfer Plant Cryno Parthed:  
CYSUR 1 /2017**

**Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad**

**Y Cyd-destun Cyfreithiol**

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dilyn argymhelliad gan yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>1</sup> a'r canllawiau cysylltiedig, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 2 - Adolygiadau Ymarfer Plant<sup>2</sup>.

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan adran 3.4 o'r canllawiau, sef:

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant cryno yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn:

- (a) wedi marw; neu
- (b) wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- (c) wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**

nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn –

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol<sup>3</sup> fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Nodir y meini prawf ar gyfer cynnal adolygiadau cryno yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015<sup>4</sup>.

Diben yr adolygiad yw nodi pethau i'w dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n ymwneud ag ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau â phlentyn a'i deulu. Bwriedir i ganlyniad yr adolygiad annog dysgu proffesiynol a sefydliadol a helpu i wella ymarfer rhyngasiantaethol ym maes amddiffyn plant yn y dyfodol.

Gweler y cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn yn [Atodiad 1](#).

<sup>1</sup>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<sup>2</sup>Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru 2016)

<sup>3</sup> Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw person neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004 neu gorff a gaiff ei grybwyll yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

<sup>4</sup> Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015. Rheoliad 4 (3)

### **Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Cryno CYSUR1/2017 yn dilyn marwolaeth baban 4 wythnos oed.

Bu farw yng ngwanwyn 2017, yn dilyn cyfnod o gyd-gysgu â'i fam. Nodwyd bod ei fam wedi yfed swm mawr o alcohol gyda chyfeillion mewn mangreoedd trwyddedig ac mewn carafán cyn disgyn i gysgu gyda'r baban yn y gwely. Yn oriau mân y bore, canfuwyd y baban yn anymatebol yn y gwely gyda'i fam. Galwyd y gwasanaethau brys a rhoddwyd triniaeth cynnal bywyd i'r baban, ond yn anffodus bu farw yn yr ysbyty yn ddiweddarach.

### **Hanes a Chyd-destun Teuluol**

Roedd y fam a'r tad wedi gwahanu ac nid oedd y tad yn gwybod am y baban tan ar ôl iddo gael ei eni. Hwn oedd plentyn cyntaf y fam; derbyniodd ofal cynnedigol ac roedd y plentyn yn iach pan gafodd ei eni. Ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty, derbyniodd y fam a'r baban ofal dilynol gan y gwasanaethau bydwreigiaeth, a gwelodd yr Ymwelydd lechyd y ddau ohonynt unwaith.

Roedd y fam yn bwydo ar y fron a nodwyd bod gofal ac ymlyniad y fam yn dda yn ymweliad cyntaf yr Ymwelydd lechyd. Cynhaliwyd yr ymweliad hwn gan yr Ymwelydd lechyd pan oedd y baban yn 12 diwrnod oed a nodwyd ei fod wedi magu pwysau. Yna symudodd y fam ac, er gwaethaf ymdrechion, ni welodd yr Ymwelydd lechyd newydd y fam na'r baban cyn ei farwolaeth.

Ar fore ei farwolaeth, canfuwyd y baban yn anymatebol yn y gwely gyda'r fam mewn carafán. Galwyd y Gwasanaethau Brys a rhoddodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru driniaeth cynnal bywyd i'r baban yn y fan a'r lle. Cafodd hyn ei gefnogi ymhellach gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a wnaeth barhau i roi triniaeth cynnal bywyd yn yr ambiwlans ac yna yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth.

Er y cafwyd ymateb prydlon gan y gwasanaethau brys ac er y trosglwyddwyd y baban yn gyflym i'r ysbyty, yn anffodus bu farw.

Roedd y baban a'r fam wedi bod ynghwsg gyda'i gilydd mewn gwely mewn carafán. Roedd y fam wedi bod yn yfed alcohol gyda'r nos mewn mangreoedd trwyddedig ac yn breifat gyda chyfeillion yn y garafán.

Yn unol â gweithdrefnau, cynhaliwyd cyfarfod Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod<sup>5</sup>.

Cynhaliodd yr Heddlu ymchwiliad troseddol i'r digwyddiadau.

<sup>5</sup> Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod 2010

### **Cyfnod o amser a adolygwyd a pham**

Y llinell amser arfaethedig ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno oedd o 1 Mehefin 2016 i 31 Mawrth 2017. Cytunodd yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant ar linell amser yr adolygiad er mwyn cynnwys y cyfnod rhwng nodi bod y fam yn feichiog a marwolaeth y baban.

Dylid nodi, pan ddechreuwyd proses yr Adolygiad Ymarfer Plant, fod ymchwiliad gan yr Heddlu yn mynd rhagddo. Ni wnaeth hyn oedi proses yr Adolygiad Ymarfer Plant na'r gwaith o nodi'r hyn a ddysgwyd a gweithredu arno, ond golygai nad oedd yn bosibl cyflwyno fersiwn derfynol yr adroddiad nes i ymchwiliad yr Heddlu a'r achos troseddol gael eu cwblhau.

### **Ymwneud y teulu â phroses yr Adolygiad Ymarfer Plant.**

Ysgrifennodd yr Adolygydd Annibynnol at y ddau riant ar ddechrau'r adolygiad a sicrhodd eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y broses. Ni ymatebodd y rhieni felly cydnabyddir bod cyfyngiadau ar yr adolygiad o ran y ffaith nad yw'n cynnwys barn y rhieni na'r teulu na straeon personol am y baban dan sylw.

## Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

### Themâu allweddol a phethau i'w dysgu sy'n codi o'r adolygiad

#### **Thema allweddol 1. Effeithiolrwydd gwaith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaethau**

Yn ystod cyfnod yr adolygiad, dim ond dwy asiantaeth oedd mewn cysylltiad â'r fam. Yr adrannau Iechyd a Thai oedd y rhain ac roedd unrhyw benderfyniadau a wnaed a champau a gymerwyd yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith ar y pryd. Roedd yn amlwg o'r llinellau amser ac o'r Digwyddiad Dysgu nad oedd hanes arwyddocaol i'w nodi a fyddai wedi peri unrhyw bryderon o ran y ffordd roedd y fam yn magu'r baban.

Roedd cyfnod o ymgysylltu gwael yn ystod camau cynnar y beichiogrwydd, ond cymerodd y gwasanaethau Bydwreigiaeth gamau dilynol priodol i ymdrin â hyn. Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, nodwyd bod rhywfaint o ddryswch o ran statws polisi Methu Mynychu Gwasanaethau Gofal Cynenedigol/Campau Dilynol ar gyfer Diffyg Presenoldeb gwasanaethau Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd. Adolygwyd y polisi<sup>6</sup> yn ystod proses yr Adolygiad Ymarfer Plant.

#### **Thema allweddol 2. Gofalu am blant yn ddiogel a defnyddio alcohol**

Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth yn ystod y beichiogrwydd nac yn y cyfnod ôl-enedigol fod pryderon ynghylch defnydd y fam o alcohol, a chofnodwyd yn ystod gofal cynenedigol ei bod yn ymwrthod â diod yn ystod ei beichiogrwydd.

Yn ystod y noson cyn marwolaeth y baban, nodwyd bod y fam wedi bod yn yfed alcohol gyda'i chwaer mewn sawl mangre drwyddedig, ac yn hwyrach mewn carafán gyda chyfeillion. Roedd y baban gyda nhw drwy'r noswaith. Roedd y garafán mewn parc carafannau, y mae cwmni mawr yn berchen arno, sydd â pholisïau diogelu a gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Mae dogfennaeth y cwmni yn nodi bod staff wedi'u hyfforddi ym maes diogelu plant a bod aelodau dynodedig o staff sydd â'r cyfrifoldeb hwn. Yn ystod y noson, ni chofnodwyd bod unrhyw bryderon wedi'u codi gan y staff yn y mangreoedd trwyddedig nac ychwaith gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae angen i staff mangreoedd trwyddedig, a'r aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r mangreoedd hyn, deimlo eu bod yn gallu mynegi pryderon diogelu mewn perthynas â rhiant sy'n yfed alcohol pan fydd ei blentyn/plant yn bresennol.

Cymerodd cynrychiolydd o Adran Trwyddedu'r Awdurdod Lleol ran yn y Digwyddiad Dysgu a gallai gyfrannu at y dysgu a'r argymhellion.

<sup>6</sup> Polisi Methu Mynychu Gwasanaethau Gofal Cynenedigol/Campau Dilynol ar gyfer Diffyg Presenoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 2009 (dyddiad adolygu 2012).

Dysgu.

Dylai hyfforddiant a chyngor a roddir gan Adran Trwyddedu'r Awdurdod Lleol atgyfnerthu'r mater o werthu alcohol i bobl sy'n ymddangos e bod dan ddylanwad alcohol neu sylweddau. Gall hyn gynnig cyfle pellach i blant gael eu diogelu.

### **Thema allweddol 3. Cyd-gysgu dan ddylanwad alcohol**

Bu farw'r baban ar ôl cyfnod o gyd-gysgu gyda'r fam ar ôl iddi fod yn yfed alcohol. Mae tystiolaeth glir o brosesau'r Adolygiad o Farwolaeth Plentyn a'r Adolygiadau o Achosion Difrifol bod 'cyd-gysgu' yn ffactor sy'n cyfrannu at farwolaethau plant, ac mae alcohol yn ffactor sy'n gwaethygu hyn yn sylweddol<sup>789</sup>. Rhoddwyd gwybod i'r fam ar sawl achlysur yn ystod y cyfnod cynenedigol ac ôl-enedigol am risgiau cyd-gysgu dan ddylanwad alcohol a rhoddwyd y llyfryn 'Naw Mis a Mwy'<sup>10</sup> iddi sydd ag adran ar gyd-gysgu. Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, nodwyd bod y gweithwyr iechyd proffesiynol wedi teimlo'n hyderus wrth drafod risgiau cyd-gysgu gyda'r fam. Mae'n ymddangos mai'r defnydd o alcohol yw'r ffactor risg cyfrannol yn yr achos hwn.

Dysgu.

Ni ellir tanbrisiu pwysigrwydd darparu gwybodaeth ynghylch risgiau cyd-gysgu dan ddylanwad alcohol ac mae angen i rieni/gofalwyr fod yn ymwybodol o'r risgiau mwy sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol.

### **Thema allweddol 4. Cadw cofnodion**

Nododd staff iechyd rai meysydd lle gellid bod wedi gwella prosesau cadw cofnodion, ond ni nodwyd bod hyn wedi cyfrannu at farwolaeth y baban.

Dysgu.

Pwysigrwydd prosesau cadw cofnodion cadarn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth neu

<sup>7</sup> [https://learning.nspcc.org.uk/media/1348/learning-from-case-reviews\\_parents-who-misuse-substances.pdf](https://learning.nspcc.org.uk/media/1348/learning-from-case-reviews_parents-who-misuse-substances.pdf)

<https://www.lullabytrust.org.uk/wp-content/uploads/Evidence-base-2019-1.pdf>

<https://www.bmj.com/content/339/bmj.b3666>

<sup>8</sup> [www.childpractice.co.uk/reviews/co%20sleeping/Overview-Report-Child-A-Final\\_Published-18-March-2016.pdf](http://www.childpractice.co.uk/reviews/co%20sleeping/Overview-Report-Child-A-Final_Published-18-March-2016.pdf)

<http://southamptonlscb.co.uk/wp-content/uploads/2017/11/CDOPAR2016-17-Final.pdf>

<sup>9</sup> [www.childreview.co.uk/review/co%20sleeping/Ages\\_of\\_concern\\_learning\\_lessons\\_from\\_serious\\_case\\_reviews.pdf](http://www.childreview.co.uk/review/co%20sleeping/Ages_of_concern_learning_lessons_from_serious_case_reviews.pdf)

<sup>10</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru – Naw Mis a Mwy

ddigwyddiadau yn glir.

### Ymarfer Effeithiol

Nodwyd llawer o enghreifftiau o ymarfer effeithiol yng ngofal y fam a'r baban.

1. Collwyd llawer o gyfleoedd yng nghanau cynnar y beichiogrwydd a chymerodd y gwasanaethau Bydwreigiaeth gamau dilynol priodol i ymdrin â hyn a gwelwyd gwelliant yn ymgysylltiad y fam tua diwedd ei beichiogrwydd.
2. Roedd tystiolaeth glir o gyfathrebu da rhwng y Fydwraig a'r Ymwelydd lechyd. Cafodd gwybodaeth allweddol o ran newid cyfeiriad ei chyfleu gan y Fydwraig i'r Ymwelydd lechyd. Roedd hyn yn bwysig gan nad oedd y fam wedi rhoi gwybod i'r Ymwelydd lechyd bod ei chyfeiriad wedi newid. Yna cysylltodd yr Ymwelydd lechyd â'r Ymwelydd lechyd newydd a llwyddwyd i drosglwyddo manylion y fam a'r baban yn brydlon.
3. Cafodd cyd-gysgu a'r ffactorau risg, gan gynnwys yfed alcohol, eu trafod gyda'r fam ar sawl achlysur yn ystod y cyfnodau gofal cynenedigol ac ôl-enedigol.
4. Cafwyd ymateb amlasiantaethol prydlon i'r digwyddiad ac ymdrechwyd i ddadebru'r baban mewn amgylchedd heriol a pharhawyd â hyn tan iddo gyrraedd yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, ac ar ôl hynny pan gafodd ei drosglwyddo i dîm meddygol yr ysbyty.
5. Mae tystiolaeth glir y cafodd y broses Amddiffyn Plant, o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, a'r Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentynod, eu rhoi ar waith yn brydlon.



### **Gwella Systemau ac Ymarfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau sy'n aelodau, ynghyd â'r canlyniadau gwella a ragwelir:*

Ni nodwyd unrhyw bryderon o ran sgiliau magu plant y fam na'i defnydd o alcohol yn ystod y cyfnod cynnedigol na'r cyfnod ôl-enedigol. Digwyddodd yr amgylchiadau anffodus hyn ar ôl i'r fam fod yn cymdeithasu ac yn yfed alcohol wrth ofalu amdano. Mae'n ymddangos bod effeithiau'r alcohol a'r trefniadau cyd-gysgu wedi cyfrannu at farwolaeth drasig ei baban 4 wythnos oed. Yn hyn o beth, nid oedd gan yr asiantaethau unrhyw wybodaeth a fyddai wedi awgrymu bod risg o niwed.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd ymchwiliad yn mynd rhagddo gan yr Heddlu ac er na wnaeth hyn oedi'r broses na'r gwaith o nodi'r hyn a ddysgwyd a gweithredu arno, nid oedd yn bosibl cyflwyno fersiwn derfynol yr adroddiad nes i ymchwiliad yr Heddlu gael ei gwblhau.

Daeth ymchwiliad yr Heddlu i ben ym mis Mehefin 2019 pan ymddangosodd y fam yn Llys y Goron a phledio'n Euog i'r ditiad o Esgeuluso Plentyn.

Y meysydd i'w gwella ar gyfer asiantaethau, fel y'u rhestrir isod, yw'r rhai a nodwyd drwy ddadansoddi a thrwy'r Digwyddiad Dysgu, a thynnwyd sylw atynt gan y cyfranogwyr eu hunain, yn hytrach na materion a allai fod wedi atal ei farwolaeth.

### **Meysydd a nodwyd i'w gwella**

#### **lechyd**

1. Adolygu polisi Methu Mynychu Gwasanaethau Gofal Cynenedigol/Camau Dilydol ar gyfer Diffyg Presenoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
2. Sicrhau bod Ymwelwyr Iechyd yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cadw cofnodion cywir.

#### **Argymhellion trwyddedu**

1. Swyddogion Trwyddedu'r Awdurdod Lleol i wneud cais bod darparwr y cwrs hyfforddiant i Ddeiliad Trwydded Bersonol yn cynnwys mater gwerthu alcohol i bobl sy'n gyfrifol am blant fel rhan o'r rhaglen.
2. Swyddogion Trwyddedu'r Awdurdod Lleol i atgyfnerthu cyngor a chanllawiau mewn perthynas â gwerthu alcohol i bobl sy'n ymddangos eu bod dan ddylanwad alcohol neu sylweddau yn ystod ymweliadau trwyddedu cyffredin.
3. Swyddogion Trwyddedu'r Awdurdod Lleol i gyfrannu at gyfarfodydd y 'Cynllun Gwarchod Tafarndai'/'Bihafiwch neu Cewch eich Banio' mewn perthynas â gwerthu alcohol i bobl sydd dan ddylanwad alcohol neu sylweddau a phobl sy'n gyfrifol am blant.

#### **Heddlu Dyfed Powys**

1. Heddlu Dyfed Powys i ystyried cydgysylltu gweithgareddau lleol â'r ymgyrch genedlaethol 'Yfed Llai, Mwynhau Mwy'.

### **CYSUR**



1. Ystyried ymateb amlasiantaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac asiantaethau o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol a gofalu am blant yn ddiogel.

#### **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

1. Ystyried ymgyrch genedlaethol ledled Cymru am y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chyd-gysgu a Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod.

#### **Gwelliannau mewn ymarfer a nodwyd hyd yn hyn**

Cydnabu aelodau yng nghyfarfod olaf y panel fod llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant bellach wedi'u gweithredu.

1. Mae polisi Methu Mynychu Gwasanaethau Gofal Cynenedigol/Camau Dilydol ar gyfer Diffyg Presenoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<sup>11</sup> wedi cael ei adolygu.
2. Erbyn hyn, mae'r Uwch-reolwr Nyrsio (Ymwelwyr Iechyd) yn archwilio cofnodion Ymwelwyr Iechyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu safon.
3. Mae Adran Trwyddedu'r Awdurdod Lleol wedi dechrau gweithio gyda staff mewn mangreoedd trwyddedig mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o ddiogelu.
4. Lansiodd Heddlu Dyfed Powys ymgyrch yn yr haf - #joiohdp/ enjoydpp - a oedd yn cynnwys cyngor ar ddiogelwch mewn sawl maes, gan gynnwys defnydd diogel o alcohol.

<https://www.facebook.com/DPPolice/posts/1405397719495529>

---

<sup>11</sup> Polisi Methu Mynychu Gwasanaethau Gofal Cynenedigol/Camau Dilydol ar gyfer Diffyg Presenoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 2009 (dyddiad adolygu 2012).

Datganiad gan yr Adolygydd			
<b>Adolygydd 1</b>	Pauline Galluccio	<b>Adolygydd 2</b> <i>(fel y bo'n briodol)</i>	
<b>Datganiad o annibyniaeth ar yr achos</b> <i>Datganiad Sicrhau Ansawdd o gymhwysedd</i>		<b>Datganiad o annibyniaeth ar yr achos</b> <i>Datganiad Sicrhau Ansawdd o gymhwysedd</i>	
Cyn dod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn, gallaf ddatgan y canlynol:		Cyn dod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn, gallaf ddatgan y canlynol:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oeddwn wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.</li> <li>Nid oeddwn wedi rheoli llinell yr ymarferydd/ymarferwyr a oedd yn gysylltiedig â'r achos yn uniongyrchol.</li> <li>Mae gennyf y cymwysterau priodol cydnabyddedig, y wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad.</li> <li>Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol, gan ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oeddwn wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.</li> <li>Nid oeddwn wedi rheoli llinell yr ymarferydd/ymarferwyr a oedd yn gysylltiedig â'r achos yn uniongyrchol.</li> <li>Mae gennyf y cymwysterau priodol cydnabyddedig, y wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad.</li> <li>Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol, gan ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.</li> </ul>	
<b>Adolygydd 1</b> <i>P Galluccio</i>		<b>Adolygydd 2</b>	
<i>(Llofnod)</i>		<i>(Llofnod)</i>	
<b>Enw</b> Pauline Galluccio		<b>Enw</b>	
		<i>(Printiwch)</i>	
<b>Dyddiad:</b> 17.10.19		<b>Dyddiad:</b> 17.10.19	
<b>Cadeirydd y Panel Adolygu</b> <i>(Llofnod)</i>		<i>Siân Howys</i>	
<b>Enw</b> Siân Howys <i>(Printiwch)</i>			
<b>Dyddiad</b> 17.10.19			

### Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant

Ym mis Gorffennaf 2017, rhoddodd Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) wybod i Lywodraeth Cymru ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant Cryno mewn perthynas â CYSUR1/2017.

Sefydlwyd Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau a nodwyd Adolygydd Annibynnol. Yn unol â'r canllawiau, roedd yr Adolygydd Annibynnol yn annibynnol ar broses reoli'r achos ac roedd ganddi'r profiad, yr arbenigedd, y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol i ymgymryd â'r Adolygiad.

Roedd y Panel Adolygu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Heddlu Dyfed Powys
- Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyfarfu'r panel yn rheolaidd o fis Hydref 2017. Darparodd asiantaethau unigol linell amser o ddigwyddiadau o bwys ynghyd â chrynodeb a dadansoddiad o'u cysylltiad â'r achos. Trafododd y panel y rhain ac fe'u defnyddiwyd i lywio'r Digwyddiad Dysgu.

Yn ystod yr Adolygiad Ymarfer Plant roedd ymchwiliad yn mynd rhagddo gan yr Heddlu ac er na wnaeth hyn oedi'r broses na'r gwaith o nodi'r hyn a ddysgwyd a gweithredu arno, nid oedd yn bosibl cyflwyno fersiwn derfynol yr adroddiad nes i ymchwiliad yr Heddlu gael ei gwblhau.

Daeth ymchwiliad yr Heddlu i ben ym mis Mehefin 2019 pan ymddangosodd mam Plentyn B yn Llŷs y Goron a phledio'n Euog i'r ditiad o Esgeuluso Plentyn.

#### Digwyddiad Dysgu

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ym mis Chwefror 2018. Fe'i hwyluswyd gan yr Adolygydd Annibynnol ac roedd ymarferwyr o'r asiantaethau canlynol yn bresennol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Heddlu Dyfed Powys
- Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaethau Trwyddedu Ffordd o Fyw, Awdurdod Lleol

#### Hysbysu aelodau o'r teulu

Rhoddwyd gwybod i aelodau perthnasol o'r teulu fod yr Adolygiad Ymarfer Plant yn mynd rhagddo, a chynigiwyd cyfleoedd iddynt gyfarfod a/neu gyfrannu at yr adolygiad neu'r Digwyddiad Dysgu. Yn anffodus, ni chafwyd ymateb hyd yn hyn. Er hynny, maent wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf llythyr ar ôl holl gyfarfodydd y panel ac yn dilyn y Digwyddiad Dysgu.

Teulu wedi gwrthod cymryd rhan:      Do

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad y derbyniwyd y wybodaeth:

..... (dyddiad)

Llythyr cydnabod wedi'i anfon at Gadeirydd y Bwrdd:

.....(dyddiad)

Wedi'i ddsbarthu i arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol:

.....(dyddiad)

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC			
Estyn			
AGIC			
Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi			
Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi			

**Atodiad 1 Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 1/2017**

**Tasgau craidd:**

- Pennu p'un a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau gwasanaethau penodol a'r Bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gwaith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaethau i'r plentyn a'r teulu.
- Pennu i ba raddau roedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu er lles pennaf y plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ceisio cyfraniadau at yr adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion a gynhelir ar yr un pryd â'r achos hwn sy'n gysylltiedig ag ef.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaethol ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau sydd eu hangen.

**Tasgau penodol y Panel Adolygu:**

- Nodi a chomisiynu adolygydd i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar adolygiadau cryno.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio amserlen a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd ar unwaith.
- Cwblhau'r ddogfen Amlinelliad Cychwynnol o Adolygiad Arfaethedig sy'n cynnwys gwybodaeth am yr Adolygydd Annibynnol ac aelodau'r Panel.
- Llunio amserlen gyfun, dadansoddiad cychwynnol a chanlyniadau dysgu.
- Ar y cyd â'r adolygydd, cynllunio Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r bobl a fydd yn bresennol a'r trefniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a'r trefniadau ar gyfer adborth.
- Ar y cyd â'r adolygydd, cynllunio'r trefniadau ar gyfer cysylltu â'r unigolyn ac aelodau o'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant drafft er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw beth ychwanegol y mae angen ei ddysgu wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad a chynllunio gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflwyno i'r Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant eu hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau ar gyfer rhoi adborth i aelodau o'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r *Panel Adolygu* yn glynu wrth egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd).

**Tasgau penodol yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant:**

- Cytuno ar Gylch Gorchwyl drafft ac Amlinelliad Cychwynnol o Adolygiad Arfaethedig ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer Adolygiad

## CYSUR 1/2017 – Adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

Ymarfer Plant, a'i gymeradwyo.

- Cytuno ar gasgliadau'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol eu hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu Adolygiadau Ymarfer Plant er mwyn sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu cyflawni ar ran y Bwrdd

### Tasgau Bwrdd Diogelu Plant CYSUR:

- Bydd yr Uned Fusnes, ar ran y Bwrdd, yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod Adolygiad Ymarfer Plant yn cael ei gynnal.
- Bydd yn cadw at yr amserlenni cwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol.
- Bydd yn derbyn yr adroddiad terfynol ar yr Adolygiad Ymarfer Plant a'r cynllun gweithredu ac yn eu cymeradwyo'n ffurfiol.
- Ystyried unrhyw bwyntiau dysgu gan y Bwrdd, a chytuno arnynt, i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Bydd y Bwrdd yn anfon y ddogfen derfynol i asiantaethau perthnasol er mwyn iddynt wneud sylwadau arni cyn ei chymeradwyo a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau'r trefniadau i Is-Grŵp yr Adolygiad reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y bydd y gwelliannau i wasanaethau a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl cwblhau'r broses.
- Cytuno ar y broses o ddsbarthu'r ddogfen i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud pob sylw ac ymateb cyhoeddus i ddiddordeb y cyfryngau yn yr adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau.

### Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Rhaid cadarnhau perchenogaeth yr holl wybodaeth a dogfennau fel bod modd cael caniatâd priodol y sefydliad perthnasol cyn eu rhannu. Dim ond gwybodaeth sy'n eiddo iddynt neu wedi'i llunio ganddynt y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r Panel gadarnhau'r cyfrifoldeb am wneud cais am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) a chytuno arno, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel y gwelir isod) yn cael ei lofnodi ym mhob un o gyfarfodydd y Panel gan bawb sy'n bresennol er mwyn ail-gadarnhau'r ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, rhaid bod gan bob asiantaeth ffiniau cyfrinachedd y cytunwyd arnynt. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny ac fe'i cynhelir yn unol â dealltwriaeth a rennir:

- Bod cyfarfod y Panel yn cael ei alw'n unol â chanllawiau '*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.
- Yr ystyrir bod unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth y tu allan i'r Panel, y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod, yn torri cyfrinachedd y gwrthrych ac yn torri cyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.



## CYSUR 1/2017 – Adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

- Os teimlir bod cydsyniad i ddatgelu yn hanfodol, y dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan Gadeirydd y Panel, ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail egwyddor 'angen gwybod'.

Fodd bynnag, yn y pen draw, cyfrifoldeb Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw datgelu gwybodaeth gan y Panel Amlasiantaethol i drydydd parti a rhaid cyfeirio at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.

TERFYNOL